


COFRESTR CANLLAW SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH		Canllaw	G011
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Canllaw Hyfforddiant Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd	Rhifyn	1
		Dyddiad	Rhagfyr 2015
		Tudalen	1 o 5

1.0 CYFLWYNIAD

Mae gan bob cyflogwr ddyletswydd benodol yn ôl Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 i ddarparu gwybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth yn ôl yr angen er mwyn sicrhau iechyd a diogelwch ei weithwyr, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol.

I gefnogi ei nodau ac amcanion strategol, mae'r Brifysgol yn anelu at y safonau uchaf posibl o reoli iechyd, diogelwch ac amgylchedd. Mae hyfforddi a datblygu staff ar bob lefel yn allweddol wrth gyfrannu at drefn reoli iechyd, diogelwch ac amgylchedd lwyddiannus.

Bydd darparu a hwyluso gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant priodol o gymorth i Gyfadranau ac Adranau Gwasanaethau Proffesiynol:

- Sicrhau bod staff a myfyrwyr yn gallu cyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol ac yn effeithlon yn unol â deddfwriaeth iechyd, diogelwch ac amgylchedd;
- Datblygu amgylchedd gwaith cadarnhaol, lle mae amgylcheddau gwaith a gweithdrefnau diogel ac iach yn cyfrannu tuag at brosesau gweithredol effeithiol ac effeithlon;
- Lleihau'r risg o anafiadau neu salwch i staff, myfyrwyr ac ymwelwyr, a.y.y.b., o ganlyniad i weithgareddau'r Brifysgol; a
- Bodloni dyletswydd gofal cyfreithiol y Brifysgol i amddiffyn iechyd a diogelwch ein staff, myfyrwyr, ymwelwyr ac unrhyw un arall a allai gael eu heffeithio gan weithgareddau'r Brifysgol.


Nid oes diffiniad cyfreithiol ar gyfer y term "gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant", ond mae'r tri pheth yn gysylltiedig, ac yn cael eu diffinio'n ymarferol fel a ganlyn:

- Ystyr gwybodaeth yw darparu deunydd ffeithiol sy'n dweud wrth bobl am beryglon a risgiau posibl, a mesurau iechyd a diogelwch priodol;
- Ystyr cyfarwyddyd yw dweud wrth bobl yr hyn y dylent ei wneud; ac
- Ystyr hyfforddiant yw rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau i bobl allu gwneud penderfyniadau hysbys, trwy helpu pobl i ddysgu sut i wneud rhywbeth, dweud wrth bobl yr hyn y dylent (neu na ddylent) ei wneud, neu'n syml roi cyfarwyddyd i bobl. Ni ddylid ystyried bod hyfforddiant yn gyfyngedig i'r ystafell ddosbarth. Mae hyfforddiant yn y gweithle yr un mor ddilys, a dylid ystyried hyfforddiant wrth weithio yn ddewis amgen dilys i hyfforddiant yr ystafell ddosbarth.

Mae Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith yn ehangu'r ddyletswydd gyffredinol o dan y Ddeddf trwy fynnu bod gweithwyr yn derbyn hyfforddiant iechyd a diogelwch priodol, yn cynnwys:

- Wrth ddechrau yn y swydd (h.y. sesiynau cyflwyno);
- Achosion o fod yn agored i risgiau newydd, neu uwch i'w hiechyd a'u diogelwch (e.e. yn sgil swyddi a chyfrifoldebau newydd neu ddiwygiedig, cyflwyno technoleg newydd, cyflwyno offer gwaith a systemau gwaith newydd, neu ddiwygio hen offer a systemau gwaith); a
- Chadw a diweddarau cymhwysedd (hynny yw sesiynau diweddarau – lle bo'n briodol).

Mae Rheoliadau penodol megis Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd a Chyfarpar Sgrin Arddangos hefyd yn cynnwys gofynion cyffredinol neu benodol sy'n ymwneud â darparu hyfforddiant iechyd a diogelwch. Rhoddir mwy o fanylion am y gofynion hyfforddiant penodol hyn yn y safonau polisi perthnasol.

COFRESTR CANLLAW SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH		Canllaw	G011
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Canllaw Hyfforddiant Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd	Rhifyn	1
		Dyddiad	Rhagfyr 2015
		Tudalen	2 o 5

Yn ôl y gyfraith, rhaid darparu hyfforddiant iechyd a diogelwch yn ystod oriau gwaith ac yn rhad ac am ddim i weithwyr.

2.0 CEFNDIR A GWYBODAETH GYFFREDINOL

Nod hyfforddiant iechyd, diogelwch ac amgylchedd yw sicrhau bod pob unigolyn yn eu swyddi a'u gweithgareddau yn derbyn yr hyfforddiant priodol sy'n cynnig gwybodaeth a phrofiad ymarferol angenrheidiol i'w galluogi i weithio yn ddiogel ac yn iach heb beryglu eu hunain nac eraill.

Mae darparu hyfforddiant a gwybodaeth iechyd, diogelwch ac amgylchedd priodol yn:

- Cynorthwyo'r Brifysgol i gyflawni ei dyletswyddau statudol a dyletswydd gofal y gyfraith gyffredin;
- Lleihau'r tebygolrwydd y bydd staff, myfyrwyr ac eraill yn cael eu hanafu neu'n sâl oherwydd gweithgareddau, cyfleusterau ac ati y mae'r Brifysgol yn gyfrifol amdanynt;
- Datblygu a chynnal diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol, ac yn helpu i sicrhau cymhwysedd iechyd a diogelwch.

3.0 GOFYNION CYFREITHIOL

Mae'r Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 yn rhoi dyletswydd ar gyflogwyr i ddarparu'r wybodaeth, y cyfarwyddyd, yr hyfforddiant a'r oruchwyliaeth sy'n angenrheidiol i amddiffyn iechyd a diogelwch gweithwyr yn y gweithle.

Mae'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith yn datgan:

Bydd pob cyflogwr yn sicrhau bod eu gweithwyr yn derbyn hyfforddiant iechyd a diogelwch priodol:


- (a) *wrth iddynt gael eu recriwtio i ymrwymiad y cyflogwr: ac*
- (b) *wrth iddynt fod yn agored i beryglon newydd neu uwch oherwydd:*
- (i) *iddynt gael eu trosglwyddo neu gael cyfrifoldebau newydd o fewn i ymrwymiad y cyflogwr;*
- (ii) *bod offer gwaith newydd yn cael ei gyflwyno neu hen offer gwaith yn cael ei newid o fewn i ymrwymiad y cyflogwr;*
- (iii) *cyflwyno technoleg newydd i fenter y cyflogwr, neu*
- (iv) *gyflwyno trefn weithio newydd neu newid i'r drefn weithio sy'n bodoli eisoes o fewn i ymrwymiad y cyflogwr.*

Nodir hefyd y bydd hyfforddiant iechyd a Diogelwch yn:

- (a) *digwydd dro ar ôl tro yn rheolaidd lle bo'n briodol;*
- (b) *cael ei addasu i ystyried risgiau newydd neu newidiol i iechyd a diogelwch y gweithwyr dan sylw; ac*
- (c) *yn digwydd yn ystod oriau gwaith.*

4.0 CYFRIFOLDEBAU

Cyfrifoldeb y Cyfadran neu'r Adran Gwasanaethau Proffesiynol yw sicrhau bod eu staff wedi derbyn, ac yn parhau i dderbyn, hyfforddiant digonol a phriodol i allu cyflawni eu gwaith yn effeithiol ac yn ddiogel.

COFRESTR CANLLAW SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH		Canllaw	G011
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Canllaw Hyfforddiant Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd	Rhifyn	1
		Dyddiad	Rhagfyr 2015
		Tudalen	3 o 5

4.1 DYLETSWYDDAU DIRPRWY IS-GANGHELLORION Y CYFADRANNAU A PHENAETHIAID ADRANNAU GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

Mae gan Dirprwy Is-Ganghellorion y Cyfadrannau a Phenaethiaid Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol gyfrifoldeb dros reoli hyfforddiant iechyd a diogelwch a darparu gwybodaeth yn yr ardal oedd y maent yn gyfrifol amdanynt.

Rhaid iddynt sicrhau bod yr holl staff, Academyddion ar Ymweliad, Gweithwyr Gwadd, Ymwelwyr a Chontractwyr yn y Cyfadran / Adran Gwasanaethau Proffesiynol, a gweithwyr newydd a thros dro yn arbennig, a phlant sy'n ymweld a /neu'n gwneud profiad gwaith yn y Brifysgol yn derbyn y cyfarwyddyd, gwybodaeth a/neu hyfforddiant angenrheidiol mewn materion iechyd a diogelwch.

Rhaid i Ddirprwy Is-Ganghellorion y Cyfadrannau a Phenaethiaid Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol sicrhau bod pob aelod o Staff a benodir yn mynychu sesiynau'r Brifysgol ar iechyd a diogelwch; darperir yr hyfforddiant drwy Raglen Groesawu Staff y Brifysgol neu drwy hyfforddiant penodol i grwpiau o staff, wrth ofyn amdano.

Dirprwy Is-Ganghellorion y Cyfadrannau neu Benaethiaid Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol fydd yn gyfrifol am sicrhau bod staff yn gymwys i gyflawni eu dyletswyddau. Bydd hynny'n cynnwys sicrhau bod rheolwyr a goruchwylwyr yn deall eu cyfrifoldeb yn ôl y gyfraith wrth ddynodi gwaith ar gyfer staff a sicrhau eu bod wedi ystyried galluoedd y gweithiwr a'r hyfforddiant perthnasol ar gyfer iechyd a diogelwch.

Bydd cyfrifoldebau penodol yn cynnwys sicrhau bod:

- gofynion hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff (a myfyrwyr lle bo'n berthnasol) yn cael eu nodi trwy gynnal dadansoddiad o anghenion hyfforddiant, a chytuno arnynt;
- gofynion hyfforddiant lleol yn unol ag asesu risg yn cael eu nodi a'u cytuno;
- staff yn mynychu ac yn derbyn yr hyfforddiant gorfodol diweddaraf ac yn gallu cyflawni'r hyfforddiant yn ôl yr angen;
- hyfforddiant diwygiedig penodol yn digwydd o fewn i amserlen benodol;
- pob aelod o staff yn derbyn sesiynau cyflwyno lleol sy'n cynnwys cwblhau pob uned o'r cwrs hyfforddi E-ddysgu Hanfodion Iechyd a Diogelwch;
- staff yn cael eu hannog i fynychu hyfforddiant a argymhellir lle bo'n briodol;
- pob hyfforddiant iechyd, diogelwch ac amgylchedd yn cael ei gofnodi a'i adrodd at ddibenion monitro.


4.2 Y TIM IECHYD, DIOGELWCH AC AMGYLCHEDD

Mae'r Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd yn darparu cefnogaeth a chynghor i Gyfadrannau ac Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol i'w cynorthwyo i gwrdd â'u cyfrifoldebau o ran hyfforddiant iechyd, diogelwch ac amgylchedd.

Bydd y Tîm hefyd yn gweithredu'r trefniadau ar gyfer monitro ac archwilio anghenion a chofnodion hyfforddiant Cyfadrannau neu Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol yn rheolaidd.

Gweler <https://www.aber.ac.uk/cy/hse/training/> ar gyfer manylion cyrsiau sydd i'w cynnig yn fewnol gan y Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd.

Nid yw'r cyrsiau a gynigir gan y Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd yn ddwys ac ni fyddant yn cynnwys yr holl hyfforddiant iechyd, diogelwch ac amgylchedd fydd yn angenrheidiol ar gyfer pob swydd, ac mae'n bosibl y bydd

COFRESTR CANLLAW SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH		Canllaw	G011
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Canllaw Hyfforddiant Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd	Rhifyn	1
		Dyddiad	Rhagfyr 2015
		Tudalen	4 o 5

angen i Gyfadrannau/Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol ystyried a nodi hyfforddiant ar gyfer swyddi penodol neu'r adran yn benodol wrth ddadansoddi'r anghenion o ran hyfforddiant. Os bydd angen hyfforddiant gan ddarparwyr hyfforddiant allanol, rhaid i Gyfadrannau ac Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Caffael ac Ariannol y Brifysgol.

4.3 DYLETSWYDDAU POB AELOD O STAFF

Dyletswydd gyfreithiol pob aelod o staff wrth weithio yn y Brifysgol neu i ffwrdd o'r Brifysgol ar fusnes neu weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol fydd cyfranogi o hyfforddiant iechyd a diogelwch priodol yn ôl yr angen.

4.4 CYFRIFOLDEBAU CONTRACTWYR, ACADEMYDDION AR YMWELIAD, GWEITHWYR GWADD AC YMWELWYR

Rhaid i gontractwyr gydymffurfio â'r gofynion iechyd a diogelwch statudol perthnasol a dilyn y cyfarwyddyd a'r wybodaeth a ddarperir gan y Brifysgol.

Rhaid i Academyddion ar Ymweliad, gweithwyr gwadd ac ymwelwyr gydymffurfio â gofynion iechyd a diogelwch statudol perthnasol, cyflawni'r hyfforddiant a dilyn y cyfarwyddyd a'r wybodaeth a ddarperir gan y Brifysgol.

5.0 CADW COFNODION

Gall yr hyfforddiant gael ei drefnu a'i ddarparu'n ganolog drwy'r Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd neu ei drefnu a'i ddarparu'n lleol drwy Gyfadrannau / Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol. Rhaid i'r sawl sy'n trefnu ac yn darparu'r hyfforddiant sicrhau bod cofnodion hyfforddiant a thystiolaeth (e.e. tystysgrifau) yn cael eu cadw.

Bydd y Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd yn cadw cofnodion hyfforddiant ar gyfer cyrsiau hyfforddiant a ddarperir yn ganolog, yn cynnwys presenoldeb, teitl y cwrs, a darparwr/wyr hyfforddiant.

Rhaid i Gyfadrannau ac Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol gadw cofnodion hyfforddiant sy'n rhoi manylion am bresenoldeb yn yr hyfforddiant, enw'r darparwr hyfforddiant a chynnwys y cyrsiau o leiaf.


6.0 GWEITHDREFNAU ADOLYGU, MONITRO AC ARCHWILIO

Bydd y Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd yn cynnal archwiliadau cyffredinol ac achlysurol i sicrhau cydymffurfio yn ôl y ddeddfwriaeth fel rhan o Raglen Archwilio Fewnol Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd.

Rhaid i Gyfadrannau / Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol adolygu eu gweithdrefnau eu hunain yn achlysurol i sicrhau bod argymhellion y canllawiau yn cael eu gweithredu, a'u bod yn addas ac yn effeithiol.

At hynny, gall Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio y Brifysgol adolygu o bryd i'w gilydd effeithiolrwydd trefn y Brifysgol o reoli hyfforddiant iechyd a diogelwch yn y gweithle.

Bydd pob Cyfadrannau ac Adran Gwasanaethau Proffesiynol yn gyfrifol am fonitro priodoldeb ac effeithiolrwydd yr hyfforddiant y mae'n ei ddarparu i'w staff. Bydd Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio y Brifysgol a'r Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd yn adolygu'n flynyddol yr hyfforddiant iechyd, diogelwch ac amgylchedd a ddarperir yn ganolog er mwyn nodi unrhyw ofynion ychwanegol y gellir eu cynnig yn fewnol.

COFRESTR CANLLAW SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH		Canllaw	G011
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Canllaw Hyfforddiant Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd	Rhifyn	1
		Dyddiad	Rhagfyr 2015
		Tudalen	5 o 5

7.0 GWYBODAETH BELLACH A CHANLLAWIAU YMARFEROL

Rhoddir mwy o fanylion am ofynion hyfforddiant penodol yn y Safonau Polisi perthnasol.

Ceir gwybodaeth ychwanegol a rhestr o'r cyrsiau sydd ar gael ar Wefan y Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd Prifysgol Aberystwyth (https://stafftraining.bis.aber.ac.uk/hs/list_courses.php), a gwefan y Ganolfan Datblygu Staff ac Ymarfer Academaidd (https://stafftraining.bis.aber.ac.uk/sd/list_courses.php).

Efallai bydd Cyfadrannau/Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol yn dymuno defnyddio'r ffynonellau gwybodaeth ychwanegol i'w cynorthwyo wrth iddynt nodi a chofnodi gofynion hyfforddiant lleol.

Mae'r Matrics Hyfforddiant Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd yn darparu canllawiau sy'n ymwneud â'r gofynion hyfforddiant iechyd, diogelwch ac amgylchedd sylfaenol ar gyfer aelodau'r staff sy'n cyflawni'r rôl neu'r swydd yn y Cyfadrannau/Adran. Dylid ystyried y matrics fel canllaw bras, gan roi ystyriaeth hefyd i ofynion hyfforddiant lleol neu brosesau unigryw lle bo hynny'n berthnasol. Mae'r Matrics Hyfforddiant Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd ar gael yma: <https://www.aber.ac.uk/cy/media/departmental/healthsafetyenvironment/Health-Safety-and-Environment-Training-Matrix.pdf>.

Gwahoddir Cyfadrannau / Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol hefyd i ddefnyddio'r Daenlen Cofnodi Hyfforddiant Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd, sydd ar gael ar wefan y Tîm Iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd. Mae'r daenlen yn galluogi Cyfadrannau/Adrannau i gofnodi'r holl hyfforddiant iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd a gyflawnir gan aelodau'r staff, ac wedi ei fformatio hefyd i gynnig gofynion codau lliw ar gyfer diweddarau'r hyfforddiant.